



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Canllawiau Drafft Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Dyddiad cyhoeddi: 15 Gorffennaf 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 07 Tachwedd 2019

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddiweddariad drafft Llywodraeth Cymru i ganllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Sut i ymateb

Dylai'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu cwblhau gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu drwy gwblhau'r holiadur gellir ei anfon drwy e-bost neu ei bostio i'r cyfeiriadau isod.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 18 Gorffennaf 2019. Er mwyn caniatáu digon o amser i bobl sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau ystyried y cynigion a gwneud sylwadau arnynt, rydym wedi ystyried gwyliau'r haf ac wedi caniatáu amser ychwanegol ar gyfer derbyn yr ymatebion. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 08 Tachwedd 2019

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi nifer o newidiadau arfaethedig i ganllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Bydd y canllawiau diwygiedig hyn yn disodli'r canllawiau statudol presennol, sef [Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#), a gyhoeddwyd yn 2015 (cylchlythyr rhif: 158/2015).

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl](#), a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/ymgynggori>

Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:

Cyfeiriad:

Cangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: keepinglearnerssafe@gov.wales



@LIC_Addysg



Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cyflwyniad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar newidiadau arfaethedig i ganllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Mae canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn nodi cyfrifoldebau cyfreithiol awdurdodau lleol, corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a pherchnogion ysgolion annibynnol, i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau i ddiogelu a hybu llesiant plant yng Nghymru. Mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i asiantaethau sy'n cyflenwi staff i leoliadau addysg, contractwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc o dan 18 oed, yn ogystal â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill ar gyfer plant a phobl ifanc o dan 18 oed.

Pam rydym yn adolygu'r canllawiau hyn?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiweddarau canllawiau statudol yn rheolaidd er mwyn ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisïau. Fel y cyfryw, rydym yn diweddarau canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel er mwyn ystyried y ffaith bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cael ei gweithredu, y ffaith bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi cael eu llunio, a newidiadau eraill mewn meysydd penodol sy'n ymwneud â diogelu a meysydd polisi cysylltiedig eraill.

Nod y diweddariad yw helpu ysgolion a cholegau i ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn well, ac egluro'r arfer effeithiol y dylid ei ddilyn. Mae llawer o'r newidiadau yn ffeithiol eu natur, gan adlewyrchu diweddariadau diweddar yn neddfwriaeth Cymru. Gwnaed newidiadau eraill yn dilyn ceisiadau gan ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i roi eglurhad ychwanegol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ba mor eglur a defnyddiol yw'r newidiadau rydym wedi'u gwneud.

Y sefyllfa bresennol

Rydym wedi cydweithio'n agos â'r Grŵp Diogelu mewn Addysg, sef y rhwydwaith o weithwyr diogelu proffesiynol ym maes addysg o awdurdodau lleol a sefydliadau eraill ledled Cymru, wrth ddiweddarau'r canllawiau hyn.

Hwyluswyd gweithdy gan ddarparwr allanol gydag aelodau o'r Grŵp Diogelu mewn Addysg er mwyn helpu'r Grŵp i gyfrannu'n effeithiol at y gwaith o ddiweddarau canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol roedd aelodau o'r Grŵp Diogelu mewn Addysg, gan gynnwys cynrychiolaeth o awdurdodau lleol, Estyn, Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Pa newidiadau penodol rydym yn eu cynnig?

Mae'r holl newidiadau arfaethedig yn rhai ffeithiol ac ni chynigir dull polisi gwahanol i'r hyn a amlinellir yn y canllawiau presennol. Hefyd, mae'r Grŵp Diogelu mewn Addysg wedi rhoi cyngor ar ddiweddarau meysydd penodol yn y canllawiau hyn.

Y prif newidiadau i'r ddogfen:

- Mae ffocws y canllawiau wedi cael ei newid i ganolbwyntio'n benodol ar rôl pobl mewn lleoliadau addysg, er mwyn rhoi eglurder i'r gynulleidfa fwriadedig;
- Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn y canllawiau wedi cael ei hailgysoni er mwyn sicrhau cysondeb â newidiadau deddfwriaethol diweddar, gan gynnwys diweddarau'r rhestr termau;
- Darperir trosolwg o bolisiau presennol i ddiogelu pobl mewn lleoliadau addysg, gan gyfeirio'r darllenwyr at ganllawiau penodol manylach;
- Rhoddir cyngor yn y canllawiau ar y ffordd y dylid rheoli cam-drin rhwng cyfoedion a chynnwys hyn yn y polisi amddiffyn plant;
- Mae gwybodaeth am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cael ei symud i bennod ar ei phen ei hun, sy'n cynnwys Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Phriodasau Dan Orfod;
- Mae pennod newydd ar Gydlynad Cymunedol wedi cael ei chynnwys, sy'n ymdrin ag atal radicaleiddio a Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant, gan gynnwys Llinellau Cyffuriau;
- Mae Adnodd Archwilio Trefniadau Diogelu wedi cael ei gynnwys er mwyn helpu lleoliadau addysg i adolygu eu trefniadau diogelu; mae'r adnodd archwilio yn bodloni gofynion Estyn;
- Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r canllawiau er mwyn rhoi eglurder ynghylch y dyletswyddau penodol a osodir ar ysgolion a cholegau, a'r ffordd y dylai lleoliadau addysg eraill fabwysiadu'r cyfrifoldebau hyn ar sail 'arfer effeithiol'

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd yr ymatebion erbyn 7 Tachwedd i:
Y Gangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays Caerdydd
CF10 3NQ

Neu wedi'i gwblhau'n electronig a'i anfon at blwch e-bost:

Nodwch yma:

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

Cwestiwn 01: Ydych chi'n cytuno bod y newidiadau drafft a wnaed i ganllawiau diwygiedig Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn briodol ac yn effeithiol? Os nad ydych, pa drefniadau pellach y credwch sydd eu hangen?

| | | | | | |
|---------------|--------------------------|------------------|--------------------------|--|--------------------------|
| Cytuno | <input type="checkbox"/> | Anghytuno | <input type="checkbox"/> | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | <input type="checkbox"/> |
|---------------|--------------------------|------------------|--------------------------|--|--------------------------|

Sylwadau cefnogol

| |
|--|
| |
|--|

Cwestiwn 02 Ydych chi'n cytuno â'r rôl a'r cyfrifoldebau a amlinellir yng nghanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gyfer yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant a swyddog arweiniol yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu? Os nad ydych, pa drefniadau pellach y credwch sydd eu hangen?

| | | | | | |
|---------------|--------------------------|------------------|--------------------------|-------------------------------------|--------------------------|
| Cytuno | <input type="checkbox"/> | Anghytuno | <input type="checkbox"/> | Ddim yn cytuno nag anghytuno | <input type="checkbox"/> |
|---------------|--------------------------|------------------|--------------------------|-------------------------------------|--------------------------|

Cyflwyno Sylwadau

Cwestiwn 03: Ydych chi'n credu bod yr adnodd archwilio trefniadau diogelu yn rhoi'r lefel gywir o gefnogaeth i ysgolion?

| | | | | | |
|---------------|--------------------------|------------------|--------------------------|-------------------------------------|--------------------------|
| Cytuno | <input type="checkbox"/> | Anghytuno | <input type="checkbox"/> | Ddim yn cytuno nag anghytuno | <input type="checkbox"/> |
|---------------|--------------------------|------------------|--------------------------|-------------------------------------|--------------------------|

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 04: Pan gaiff y fersiwn derfynol o ganllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel eu cyhoeddi yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd rhaglen weithredu yn dechrau. Pa weithgarwch gweithredu (hyfforddiant a/neu godi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) y bydd ei angen yn eich barn chi?

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 05: Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 06: A fydddech cystal ag esbonio hefyd sut y credwch y gallai'r canllawiau diwygiedig arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau cefngol

Cwestiwn 07: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt:

Sylwadau cefnogol

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu gwneud yn gyhoeddus, ar y neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: